Ysgol y Lawnt

Polisi Plant Galluog a Thalentog

(Gweler hefyd Cynhwysiant; Addysgu a Dysgu)

I Cyflwyniad

1 . 1 Rydym yn credu mewn sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl ar gyfer disgyblion o bob gallu. Rydym yn cynllunio ein haddysgu a dysgu fel y gall pob plentyn anelu at y lefel uchaf o gyflawniad personol. Diben y polisi hwn yw helpu i sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion y plant hynny yn ein hysgol sydd wedi cael eu hadnabod fel 'galluog' a / neu 'talentog' yn unol å chanllawiau cenedlaethol.

I .2 Caiff y termau eu diffinio fel a ganlyn:

- mae 'galluog' yn cyfeirio at blentyn sydd ag ystod eang o gyrhaeddiad ar lefel Ilawer uwch na'r cyfartaledd, yn nodweddiadol yn y pynciau mwy academaidd;
- mae 'talentog' yn cyfeirio at blentyn sy'n rhagori mewn un neu fwy o feysydd penodol, fel arfer y rhai sy'n galw am sgiliau perfformio, megis chwaraeon neu gerddoriaeth, ond nid ydynt o anghenraid yn perfformio ar lefel uchel ar draws yr holl feysydd dysgu.

I .3 Bydd tua 20 y cant o'r plant yn ein hysgol yn cael eu hystyried fel galluog a/neu dalentog. Gwneir darpariaeth ar gyfer plant galluog o fewn yr addysgu arferol yn y dosbarth, bydd doniau yn cael eu dathlu mewn gwasanaethau ysgol ac yn y dosbarth, a byddwn yn darparu gweithgareddau cyfoethogi neu ymestynnol Ile y bo'n briodol.

1.4 Er ein bod yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer y plant hyn yn ein hysgol, rydym yn parchu hawl pob plentyn, waeth beth fo'u gwahaniaeth o ran gallu, i gael mynediad i feysydd amrywiol o ddysgu ar gyfer eu hunan-gyflawniad ac ar gyfer eu datblygiad yn y pen draw i fod yn oedolion egniol a chyfrifol. Yn ein datganiad cenhadaeth, rydym yn datgan ein bod yn gwerthfawrogi unigolrwydd pob un o'n plant.

2 Nodau ac amcanion

2.1 Ein hamcanion yw:

- sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion ein holl blant;
- galluogi plant i ddatblygu i'w Ilawn botensial;
- cynnig cyfleoedd i blant gynhyrchu eu dysgu eu hunain;
- sicrhau ein bod yn herio ac yn ymestyn y plant trwy'r gwaith yr ydym yn ei osod;
- annog plant i feddwl a gweithio'n annibynnol.

3 Adnabod plant galluog a thalentog

3.1 Rydym yn defnyddio ystod o strategaethau i adnabod plant galluog a thalentog. Mae'r broses adnabod yn un barhaus, ac yn dechrau pan fydd y plentyn yn ymuno ein hysgol. Mae cofnod cynysgol pob plentyn yn rhoi manylion am gyflawniadau a diddordebau mewn meysydd penodol. Mae trafodaethau gyda rhieni a gofalwyr yn ein galluogi i ychwanegu manylion pellach i'r cofnodion hyn.

3.2 Caiff y plant asesiad sylfaenol o fewn yr hanner tymor cyntaf o ymuno â'n dosbarthiadau meithrin a derbyn. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth am eu sgiliau a'u doniau ar draws nifer o feysydd dysgu.

3.3 Wrth i'r plant symud drwy'r ysgol, rydym yn eu profi yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gwneud y math o gynnydd yr ydym yn ei ddisgwyl ohonynt mewn perthynas â'u targedau personol.

3.4 Caiff y plant eu hasesu'n rheolaidd ym mhob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Rydym yn cymharu gwybodaeth o'r profion hyn gydag ystod o ddata cenedlaethol a data'r AALI er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud cynnydd priodol.

3.5 Mae pob athro yn adolygu cynnydd y plant ac yn cofnodi hyn ar INCERTS - ein proses electronig o olrhain disgyblion. Mae'r athrawon yn trafod cynnydd y plant gyda rhieni a gofalwyr yn y nosweithiau ymgynghori pob chwe mis, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd pob plentyn ym mis Gorffennaf.

4 Doniau mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg

4.I Caiff plant sy'n alluog ym maes Cymraeg a/neu Saesneg eu hadnabod pan fyddant yn:

- o dangos lefelau cymharol uchel o ruglder a gwreiddioldeb wrth sgwrsio;
- defnyddio sgiliau ymchwil yn fwy effeithiol i syntheseiddio gwybodaeth;
- mwynhau darllen, ac yn ymateb i ystod o destunau ar lefel uwch; o defnyddio geirfa ehangach, ac yn mwynhau gweithio gyda geiriau;
- gweld materion o ystod ehangach o safbwyntiau;
- defnyddio sgiliau mwy datblygedig wrth drafod.

4.2 Caiff plant sy'n alluog ym maes Mathemateg yn cael eu hadnabod pan fyddant yn:

- archwilio ystod ehangach o strategaethau ar gyfer datrys problem;
- mwy chwilfrydig wrth weithio gyda rhifau ac ymchwilio i broblemau;
- gweld atebion yn fwy cyflym, heb roi cynnig ar yr holl opsiynau;
- edrych y tu hwnt i'r cwestiwn er mwyn damcaniaethu ac egluro; o gweithio'n fwy hyblyg, ac yn sefydlu eu strategaethau eu hunain; o mwynhau trin rhifau.

5 Addysgu a Dysgu

5.1 Mae ein hathrawon yn cynllunio'n ofalus i gwrdd ag anghenion dysgu ein holl blant. Rydym yn rhoi pob cyfle i blant ddangos yr hyn y maent yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Rydym yn cyflawni hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd wrth gynllunio ar gyfer dysgu plant, er enghraifft drwy ddarparu:

- gweithgaredd cyffredin sy'n caniatâu i'r plant ymateb ar eu lefelau eu hunain; o gweithgaredd cyfoethogi sy'n ehangu dysgu plentyn mewn perthynas â sgil neu faes gwybodaeth arbennig; o unigol o fewn thema gyffredin sy'n adlewyrchu mwy o ddyfnder o ddealltwriaeth a lefel uwch o gyrhaeddiad;
- cyfle i blant wneud cynnydd trwy eu gwaith ar eu cyflymder eu hunain o ddysgu.
- cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau grWp targed ar raglen dreigl.

5.2 Mae plant yn gyfarwydd ag amrywiaeth o strategaethau trefniadol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Gall y strategaethau hyn gael eu defnyddio gan yr holl blant, ond maent yn rhoi mwy o gyfle i gyflawnwyr uwch.

5.3 Caiff dysgu ei gyfoethogi trwy weithgareddau gwaith cartref rheolaidd sy'n gysylltiedig å'r gwaith a wneir yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnig cyfle pellach i athrawon osod gwaith ar lefel plant unigol.

5.4 Bydd y plant hefyd yn cael y cyfle i brofi ystod o ymweliadau addysgol sy'n cyfoethogi a datblygu dysgu ymhellach.

6 Strategaethau Rheoli

6.1 Mae'r arweinydd plant galluog a thalentog yn cydlynu'r ddarpariaeth a'r arfer yn yr ysgol ar gyfer plant galluog a thalentog. Mae'r röl hon yn cynnwys:

- o cynnal a diweddaru cofrestri o ddisgyblion galluog a thalentog; o monitro cynllunio athrawon er mwyn sicrhau bod tasgau a gweithgareddau addas yn cael eu cynnal ar draws holl feysydd y cwricwlwm gan y cyflawnwyr uwch;
- adolygu trefniadau addysgu ar gyfer y plant hyn;
- monitro eu cynnydd bob tymor drwy drafodaethau gydag athrawon;
- cefnogi staff i adnabod y plant hyn;
- darparu cyngor a chefnogaeth i staff ar strategaethau addysgu a dysgu;
- cysylltu å rhieni a gofalwyr, Ilywodraethwyr a swyddogion AALI ar faterion cysylltiedig.

7 Monitro ac adolygu

7.1 Mae'r llywodraethwr sydd å chyfrifoldeb am faterion cynhwysiant yn monitro darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion galluog a thalentog. Bydd y Ilywodraethwr yn gweithio gyda chydlynydd plant galluog a thalentog yr ysgol i gefnogi ymdrechion yr ysgol i helpu'r disgyblion hyn i gyrraedd eu potensial llawn.

7.2 Mae'r cydlynydd ar gyfer disgyblion galluog a thalentog yn rhoi adborth i'r corff Ilywodraethol yn flynyddol. Mae'r monitro yn cynnwys adborth gan rieni/gofalwyr a phlant, yn ogystal ag arsylwadau dosbarth rheolaidd o addysgu a dysgu, a gwerthusiadau tymhorol o waith ysgrifenedig y plant.

7.3 Mae'r cydlynydd yn casglu samplau o waith gan y cyflawnwyr uwch er mwyn dangos y safonau y maent yn eu cyflawni. Rydym yn defnyddio'r enghreifftiau hyn i lywio'r broses o adnabod plant dawnus a thalentog.

7.4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, neu ynghynt os bydd angen.

Llofnodwyd:

Dyddiad: